CYDLYNIAETH A CHYSONDEB YM MAES ADDYSG 14-19 - y ddadl dros hunanreoleiddio proffesiynol ym maes Addysg Bellach

Crynodeb Gweithredol

Papur safbwynt gan GyngACC yw hwn. Mae'n cyflwyno'r ddadl dros hunanreoleiddio proffesiynol ym maes Addysg Bellach gyda'r nod o ddod â mwy o gysondeb a chydlyniaeth i addysg pobl ifanc 14-19 oed ar draws lleoliadau dysgu.

Y pwnc

- O dan agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru *'Gweddnewid Addysg'*, mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg a hyfforddiant weithio mewn partneriaeth er mwyn darparu dewis gwirioneddol o lwybrau dysgu i bobl ifanc 14- 19 oed ar draws ysgolion a cholegau.

- Mae hawl gan rieni a'r cyhoedd i gael eu sicrhau bod pobl ifanc, pa un ai ydynt mewn ysgol neu goleg, yn cael eu haddysgu gan athrawon sy'n cael eu rheoleiddio ac sy'n anelu at y safonau proffesiynol uchaf posibl. Mae hwn yn fater sylfaenol o degwch o ran ansawdd dysgu pob person ifanc.

- Bydd y *Mesur Dysgu a Sgiliau* drafft, ymysg pethau eraill, yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sicrhau darpariaeth alwedigaethol i ddisgyblion, ac mae hyn yn debyg o gynyddu nifer yr athrawon Addysg Bellach mewn ysgolion. Eisoes mae llawer o athrawon Addysg Bellach yn addysgu'r un grŵp o bobl ifanc 14-19 oed ag athrawon ysgol, ond nid yw'n ofynnol iddynt lynu at yr un disgwyliadau proffesiynol, ac nid ydynt yn cael cyfleoedd cyfartal o ran datblygiad proffesiynol. Dylai fod yna set gyffredin o ddisgwyliadau i athrawon Addysg Bellach ac athrawon ysgol, a dylent gael yr un cyfle i gael datblygiad proffesiynol parhaus.

Beth mae CyngACC yn dadlau drosto

- Mae angen set gyffredinol o safonau proffesiynol lefel uchel sy'n berthnasol i athrawon mewn ysgolion ac mewn lleoliadau Addysg Bellach. Byddai hyn yn helpu i sicrhau cymaroldeb cymwysterau a throsglwyddedd cyflogaeth rhwng y sector ysgolion a'r sector Addysg Bellach.

- Byddai athrawon Addysg Bellach yn cael budd o gorff proffesiynol cryf, annibynnol, amlwg ac uchel ei barch, a all ysbrydoli'r safonau uchaf o ran ymddygiad a chymhwysedd, rheoleiddio'r proffesiwn addysgu Addysg Bellach, gwella cyfleoedd i gael datblygiad proffesiynol a rhoi llais a chyfeiriad ar faterion yn ymwneud ag addysgu.

- Gellid sicrhau ymagwedd gydlynol a chyson at gydnabyddiaeth broffesiynol i athrawon ar draws lleoliadau dysgu petai CyngACC yn dod yn gorff proffesiynol i athrawon mewn ysgolion a hefyd mewn lleoliadau Addysg Bellach. Nid yw CyngACC yn dadlau dros reoleiddio'r sector

dysgu gydol oes ehangach ar hyn o bryd.

- Mae CyngACC yn dadlau bod angen gweithredu ar frys yn y maes hwn.

CYDLYNIAETH A CHYSONDEB YM MAES ADDYSG 14-19
- y ddadl dros hunanreoleiddio proffesiynol ym maes Addysg Bellach

A. Cyflwyniad

1. Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) yw'r corff statudol, hunanreoleiddiol a phroffesiynol i athrawon yng Nghymru. Mae'n ceisio codi statws addysgu trwy gynnal a hyrwyddo'r safonau uchaf o arferion ac ymddygiad proffesiynol er lles athrawon, disgyblion a'r cyhoedd.

   Nod y Cyngor yw darparu llais annibynnol, cynrychioliadol ac awdurdodol ar gyfer y proffesiwn addysgu yng Nghymru ac mae'n ceisio darparu cyngor cynhwysfawr i Lywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau eraill ynghylch materion addysgu.

2. Papur safbwynt y Cyngor yw hwn ar y ddadl dros gyflwyno hunanreoleiddio proffesiynol yn y sector Addysg Bellach, a thrwy hynny cyfrannu at broffesiynoli addysgu ymhellach ym maes Addysg Bellach.

B. Swyddogaeth CyngACC fel corff proffesiynol i athrawon ysgol

3. O dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002), sefydlwyd CyngACC i *"gyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu a chynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon er lles y cyhoedd".*

4. Mae swyddogaethau'r Cyngor yn rheoleiddiol, ymgynghorol a gweithredol.

5. Mae **swyddogaethau rheoleiddiol** y Cyngor yn cynnwys creu a chadw Cofrestr Athrawon; nodi safonau proffesiynol ar ffurf Codau Ymddygiad ac Arfer; a chynnal y safonau hynny ymysg aelodau o'r proffesiwn trwy ymchwilio a, lle bo'n briodol, gwrando achosion sy'n ymwneud â honiadau o gamymddygiad proffesiynol neu anghymhwysedd yn erbyn athrawon cofrestredig.

6. Mae **swyddogaethau ymgynghorol** y Cyngor yn golygu cynghori'r Cynulliad a chyrff dynodedig eraill ar:

   - safonau addysgu;
   - safonau ymddygiad i athrawon;
   - swyddogaeth y proffesiwn addysgu;
   - hyfforddiant, datblygiad gyrfa a rheoli perfformiad athrawon;
   - recriwtio, cadw a chyflenwi athrawon;
   - statws y proffesiwn addysgu;
   - ffitrwydd meddygol i addysgu;

   ac, os yw'n ofynnol gan y Cynulliad, unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud ag addysgu.

7. Mae **swyddogaethau gweithredol** y Cyngor yn ei alluogi, ar gais y Cynulliad, i "ymgymryd â gweithgareddau i hyrwyddo recriwtio i'r proffesiwn addysgu a datblygiad proffesiynol parhaus athrawon". Hyd yn hyn mae'r Cynulliad wedi gofyn i'r Cyngor weinyddu rhaglenni cyllid i gynnal datblygiad proffesiynol athrawon, gan gynnwys athrawon newydd yn nhair blynedd gyntaf eu gyrfa. Mae'r Cyngor hefyd yn dyfarnu statws athro cymwysedig (SAC) ar sail argymhellion sefydliadau Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol

Athrawon, ac mae'n rhoi eu tystysgrifau SAC i athrawon newydd gymhwyso. I athrawon sy'n methu â bodloni safon y flwyddyn ymsefydlu ar ôl eu blwyddyn gyntaf o addysgu ac sy'n anfodlon ar y penderfyniad, y Cyngor yw'r corff apelio annibynnol.

8. Mae gan y Cyngor swyddogaeth allweddol wrth **godi statws** proffesiwn addysgu mewn ysgolion, ac mae'n credu ei fod, yn ystod yr wyth mlynedd y mae'n bodoli, wedi chwarae rhan sylweddol, ar y cyd gyda chamau eraill gan Lywodraeth y Cynulliad ac eraill, mewn dechrau newid canfyddiadau ar ôl cyfnod o gyhoeddusrwydd negyddol am y proffesiwn addysgu yn y 1980au a'r 1990au. Gall cyfraniad penodol y Cyngor at godi statws athrawon gael ei briodoli i'r holl waith a ddisgrifir uchod – canolbwyntio ar wella arferion proffesiynol trwy bwysleisio addysg a hyfforddiant parhaus i athrawon; dangos y gallu i weithredu fel corff hunanreoleiddiol annibynnol; a rhoi cyhoeddusrwydd i gyfraniad cadarnhaol athrawon i'r gymdeithas a'r safonau uchel a'r lefelau uchel o ymroddiad a chymwysterau y disgwylir i athrawon feddu arnynt.

C. Yr angen am ymagwedd gyson at athrawon pobl ifanc 14-19 oed

9. Mae, neu bydd, nifer gynyddol o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol neu hŷn na hynny (pobl ifanc 14-19 oed) yn cael eu haddysgu gan athrawon Addysg Bellach naill ai mewn lleoliadau Addysg Bellach neu mewn ysgolion. Hefyd, darperir rhywfaint o addysg i oedolion mewn ysgolion. Mae'r symudiad hwn tuag at fwy o hyblygrwydd mewn lleoliadau dysgu, sydd wedi'i fwriadu i sicrhau bod cwricwlwm y dysgwr yn cyd-fynd â'i ddyheadau, ei uchelgeisiau a'i dueddfrydau, yn rhywbeth i'w groesawu. Fodd bynnag, mae'n tanlinellu nifer o anghysonderau yn y ffyrdd y mae dysgwyr ac athrawon yn cael eu trin ar draws y ddau sector.

10. O dan y rhaglen 'Gweddnewid Addysg', mae'n ofynnol i ysgolion a cholegau yng Nghymru gydweithio mewn partneriaeth i ddarparu dewis gwirioneddol i ddysgwyr o dan *Lwybrau Dysgu 14-19*. Mae'r *Mesur Dysgu a Sgiliau* drafft yn ddiwygiad dirfawr ar addysg, sy'n galw am ffyrdd newydd o weithio a chynllunio'r cwricwlwm ar draws ffiniau rhwng sefydliadau. Mae'r gofynion hyn yn cryfhau'r ddadl dros herio'r drefn bresennol lle mae polisïau a rheoliadau gwahanol yn berthnasol i athrawon mewn ysgolion ac mewn colegau. Nid yw rhieni'n gwahaniaethu rhwng cyrsiau galwedigaethol a chyrsiau analwedigaethol mewn lleoliadau unigol ac ni fyddant yn deall pam y mae rhai rheolau a hawliau'n berthnasol i athrawon ysgol ond nid i athrawon Addysg Bellach. Mae angen cydlyniaeth a chysondeb yn yr ymagwedd. Ceir hyn eisoes mewn rhai meysydd, er enghraifft, penderfyniad y Gweinidog yng Nghymru y dylai fod cydraddoldeb i athrawon Addysg Bellach gyda'r brif raddfa gyflog i athrawon ysgol, ond nid mewn meysydd eraill, er enghraifft, mae yna drefniadau gwahanol o ran gofynion datblygiad proffesiynol, cymhwyso a chofrestru, a sicrhau ansawdd. Mae'r sefyllfa hon yng Nghymru'n cymharu'n wael â'r gweithgareddau rheoleiddiol a datblygu a gafwyd ym maes Addysg Bellach yn Lloegr ers mis Medi 2007.

11. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi ymrwymo i strategaeth i ddatblygu Gweithlu'r Plant a Phobl Ifanc gan gynnwys cyhoeddi 'Craidd Cyffredin o Wybodaeth a Dealltwriaeth'. Mae'r rhyngwyneb rhwng ysgolion a cholegau'n arbennig o berthnasol yng ngoleuni profiadau addysgol plant a phobl ifanc ac mae hwn yn faes lle mae yna gyfle amlwg i weithredu.

D. Beth allai corff proffesiynol gyfrannu at ddatblygu'r gweithlu Addysg Bellach?

12. Ar sail profiadau CyngACC ers ei sefydlu a phrofiadau cyrff proffesiynol eraill y DU ym maes addysgu neu broffesiynau eraill, awgrymwn y gallai corff proffesiynol yn y sector Addysg Bellach wneud cyfraniad cryf iawn i ddatblygu ei weithlu trwy:

    - ddatblygiad proffesiynol cychwynnol a pharhaus;

    - gosod a chynnal safonau ymddygiad proffesiynol a chymhwysedd er lles y cyhoedd a'r proffesiwn.

13. Rydym wedi nodi isod rai ystyriaethau wedi'u cefnogi gan enghreifftiau o'r cyfraniadau penodol mae CyngACC wedi gallu eu gwneud mewn perthynas ag addysgu mewn ysgolion yn y meysydd hyn. Rydym o'r farn fod hon yn swyddogaeth y gallai corff proffesiynol ym maes Addysg Bellach ei chyflawni.

Datblygiad proffesiynol cychwynnol a pharhaus

14. Y gosodiad cyntaf ac amlycaf i'w wneud yw bod arbenigedd proffesiynol yn galw nid yn unig am wybodaeth o'r pwnc ond hefyd am gymhwysedd addysgu. Wrth gwrs mae'n debyg y bydd amrywiadau o fewn y gweithlu Addysg Bellach o gofio pa mor amrywiol yw'r ddarpariaeth Addysg Bellach. I roi esiampl, efallai bydd bwlch rhwng cymhwysedd addysgu darlithydd graddedig gyda chymhwyster cydnabyddedig mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol sy'n bodloni safonau Cymru a Lloegr ac, er enghraifft, darlithydd heb radd a gyflogir rhan-amser gan sefydliad oherwydd ei sgiliau a'i brofiad penodol mewn crefft neu broffesiwn. Yn wir, mae'n bosibl na fydd yr ail ddarlithydd wedi cael unrhyw baratoad ffurfiol ar gyfer addysgu.

15. Fel y corff hunanreoleiddiol proffesiynol ar gyfer athrawon mewn ysgolion, mae'r Cyngor yn cefnogi'n llwyr y dymuniad i gynnal a pharhau i godi safonau addysgu yn y sector Addysg Bellach. Un maes amlwg, felly, lle byddai corff proffesiynol ym maes Addysg Bellach yn cyfrannu yw hyrwyddo gwell arferion proffesiynol. Dylai gwell arferion proffesiynol olygu y bydd gan ddysgwyr mewn lleoliadau Addysg Bellach, lle bynnag y bônt yng Nghymru, hawl i addysgu o ansawdd gwell. Mae hwn yn gyfle i ddileu ffactor 'hap a damwain ddaearyddol' o brofiad y dysgwr.

16. Mae'n bosibl y bydd colegau Addysg Bellach unigol yn ei gwneud yn ofynnol i'w staff eu hunain gael cymhwyster addysgu cychwynnol o fewn cyfnodau penodol o amser, ond rheolydd safonau fyddai yn y sefyllfa orau i nodi'r gofyniad a ddisgwylid ar gyfer pob darlithydd ar draws y sector Addysg Bellach. Mae swyddogaeth bosibl rheolydd hyd yn oed yn fwy perthnasol oherwydd statws corfforedig annibynnol colegau Addysg Bellach.

    Cymwysterau addysgu.

17. O fewn unrhyw broffesiwn, gan fwyaf, y mae arbenigedd ar arferion proffesiynol. Felly corff proffesiynol sydd yn y sefyllfa orau i ddatblygu, cynnal a pherchnogi'r safonau sy'n disgrifio cymhwysedd proffesiynol. Dylai hyn fod yn wir mewn perthynas â chymwysterau addysgu cychwynnol a chymwysterau addysgu pellach.

Cymwysterau addysgu cychwynnol

18. Mewn perthynas â chymwysterau addysgu cychwynnol, yn 2002 dywedasom y byddem yn arbennig o gefnogol i unrhyw symudiadau i sicrhau bod y Cymhwyster Addysg Bellach cam 3 a fodolai bryd hynny'n gyfwerth â SAC. Roedd cyrsiau a arweiniai at y cymhwyster hwnnw'n cynnwys elfennau sydd hefyd yn rhan o gyrsiau sy'n arwain at SAC (e.e. damcaniaeth dysgu, seicoleg addysg a rheoli rhaglenni) a theimlem y dylai hyn hwyluso ystyried ei gydberthynas â SAC ar gyfer addysgu disgyblion oedran ysgol. Rydym yn dal i ddymuno gwneud y ddau gymhwyster yn gyfwerth.

19. Fodd bynnag mae'n peri rhwystredigaeth nad oes llawer o gynnydd uniongyrchol wedi cael ei wneud ar ôl chwe blynedd. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod dysgwyr a staff yn symud fwyfwy rhwng ysgolion a maes Addysg Bellach a bod hyn yn debyg o barhau i gynyddu. I roi enghraifft, ni chaniateir i athrawon â chymwysterau TAR (Addysg Bellach) gael eu cyflogi gan ysgolion ond fel 'hyfforddwyr', er bod athrawon sydd â SAC i addysgu disgyblion oedran ysgol yn cael addysgu mewn unrhyw ysgol neu goleg. Mae angen deddfwriaeth i ymdrin â'r ffordd orau i roi SAC i athrawon â chymhwyster TAR (Addysg Bellach) sydd â phrofiad addas mewn ysgolion, neu ddarlithwyr graddedig, sydd efallai'n addysgu am ran sylweddol o'u hamser mewn ysgolion neu sy'n addysgu disgyblion ysgol mewn lleoliadau Addysg Bellach. Byddai goblygiadau i hyn hefyd yn y dyfodol o ran addasu cyrsiau Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon sy'n arwain at gymhwyster TAR (Addysg Bellach) i gymryd i ystyriaeth y cyd-destunau 14-19 newydd lle mae'n bosibl y bydd gofyn i ddarlithwyr addysgu mewn ysgolion.

20. Mae'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau wedi lansio'r 'Safonau proffesiynol i athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes'. Barn y Cyngor yw nad yw'r ymgais i gynnwys y rolau amrywiol a geir yn y sector dysgu gydol oes mewn un fframwaith yn adlewyrchu pa mor gymhleth yw'r gweithlu Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a dysgu cymunedol. Mae angen gwahaniaethu rhwng rôl athrawon a rôl pobl eraill sy'n ymwneud â dysgu, er mwyn osgoi'r posibilrwydd o lastwreiddio'r safonau i athrawon.

21. Yn fwy arwyddocaol, fodd bynnag, nid yw'r safonau'n ymdrin â materion sy'n ymwneud â mater sylfaenol cyfwerthedd gyda'r Statws Athro Cymwys sy'n bodoli eisoes i athrawon yn y sector ysgolion - er ym marn LLUK, mae yna 80% o orgyffyrddiad gyda safonau SAC. Mae'r cynnig i ddatblygu fframwaith sy'n rhagdybio o leiaf Lefel 5 NQF, yn codi pryderon gwirioneddol yn nhermau cydraddoldeb i athrawon sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn gwahanol leoliadau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yng nghyd-destun cyd-ddarparu rhaglenni addysgu o fewn y *Llwybrau Dysgu*.

22. Mae'r Cyngor yn credu y dylid datblygu set lefel uchel o safonau proffesiynol cyffredinol a allai gael eu defnyddio ar gyfer athrawon mewn ysgolion a lleoliadau Addysg Bellach ac a fyddai felly'n ei gwneud yn bosibl cynnal trafodaethau manwl ynglŷn â chyfwerthedd rhwng safonau SAC ac Athro Dysgu a Sgiliau Cymwys a chynnwys rhaglenni hyfforddiant cychwynnol.

23. Fodd bynnag, mae rheoleiddio proffesiynol yn beth gwahanol i fodolaeth safonau addysgu. Mae'n ffordd y gellir sicrhau bod unigolyn yn parhau i fod yn gymwys trwy ddisgwyliadau am DPP a thrwy ymdrin â chamymddygiad proffesiynol neu anghymhwysedd difrifol mewn lleiafrif bach o achosion unigol.

24. Hoffai CyngACC weld unrhyw gorff rheoleiddiol i athrawon Addysg Bellach yn cael pwerau uniongyrchol dros y safonau proffesiynol, achrediad y rhaglenni hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon a datblygiad fframweithiau ar gyfer DPP a datblygu gyrfa. Mae CyngACC hefyd yn credu ei bod yn iawn iddo gael y pwerau hyn mewn perthynas ag athrawon ysgol hefyd, gan mai ef yw'r corff proffesiynol i athrawon.

Cymwysterau addysgu pellach

25. Mewn perthynas â chymwysterau addysgu pellach, efallai y bydd datblygiadau ym maes addysgu yn y sector ysgolion yn addysgiadol. Yn 2003, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru safon blwyddyn ymsefydlu statudol a osododd y safonau cymhwysedd proffesiynol yr oedd yn ofynnol i ANG eu bodloni ar ôl blwyddyn o addysgu. Yn 2005, daeth y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (NPQH) yn orfodol i bob pennaeth newydd yng Nghymru. Ym mis Medi 2007, dechreuodd y Cyngor dreialu rhaglen a chymhwyster Athro Siartredig i athrawon hyfedr yng nghanol eu gyrfaoedd ac mae'n bwriadu prif-ffrydio hyn o 2010 ymlaen, yn amodol ar ganlyniadau gwerthusiad annibynnol. Yn gryno, cyn bo hir bydd gan athrawon ysgol yng Nghymru fframwaith o gerrig milltir, safonau a chymwysterau proffesiynol a fydd yn cynnig cydlyniaeth a dilyniant, gan amrywio o SAC trwy Ymsefydlu, Athro Siartredig ac ymlaen i Brifathrawiaeth i'r rhai sy'n anelu at hynny. Bydd hyn yn cynorthwyo athrawon i gynllunio'r cam nesaf sy'n fwyaf priodol iddynt yn eu datblygiad proffesiynol.

26. Gellir argymell y gydlyniaeth a'r dilyniant a gynigir gan fframwaith datblygiad proffesiynol gydol gyrfa i athrawon Addysg Bellach hefyd. Oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar safonau proffesiynol, mae corff proffesiynol mewn sefyllfa dda i ysgogi menter o'r fath. Fodd bynnag, byddai angen cydnabod, gan fod lefelau cymwysterau athrawon Addysg Bellach yn amrywio mwy, byddai angen o hyd am amrywiaeth o lefelau a mathau o gymwysterau addysgu cychwynnol a phellach – er y gallai'r rhain fod yn rhan o waith un corff proffesiynol.

27. Mae'r Cyngor wedi datblygu a chyflwyno dogfennau cyngor allweddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar Fframwaith Datblygiad Proffesiynol i Athrawon yng Nghymru, oedd yn ymdrin â chydlyniaeth a dilyniant o ran cerrig milltir a safonau gyrfa; datblygiad, cydnabyddiaeth ac achrediad proffesiynol; cofnodi DPP a myfyrio arno; a sicrhau ansawdd darpariaeth DPP. Byddai'r materion sy'n cael sylw yng nghyngor y Cyngor ar y Fframwaith hefyd yn sylfaen gadarn ar gyfer ystyried cymwysterau a DPP ym maes Addysg Bellach.

<u>Datblygiad proffesiynol parhaus</u>

28. Heb ddiwylliant o ddatblygiad proffesiynol, bydd unrhyw broffesiwn yn aros yn ei unfan ac ni fydd yr angen am fyfyrdod a gwelliant parhaus yn symbyliad iddo. Rhaid i'r un egwyddor fod yn berthnasol i'r proffesiwn addysgu. Dylai athrawon, o bob proffesiwn, fod yn flaenllaw ym maes dysgu eu hunain. Dim ond dechrau'r daith yw cael cymhwyster addysgu cychwynnol.

29. Yn 2002, nodasom yr egwyddorion yr oeddem yn credu y dylent fod yn sylfaen i DPP athrawon, sef:

- diffiniad eang o DPP, gan gynnwys yr holl ddysgu ffurfiol ac anffurfiol a ddatblygodd arferion athrawon;

- bod gan athrawon hawl i gael DPP a chyfrifoldeb am eu DPP eu hunain;

- mynediad gydol gyrfa i DPP o ansawdd da, waeth ble yng Nghymru mae'r athrawon;

- dylai arian ar gyfer DPP gydnabod anghenion y llywodraeth, ysgolion ac athrawon unigol;

- cydberthynas agos gyda'r broses rheoli perfformiad, y gellid trafod a chytuno ar anghenion a darpariaeth DPP drwyddi.

30. Ar gais y Cynulliad, rydym wedi bod yn ceisio gwireddu'r egwyddorion hyn trwy ein gwaith ar Fframwaith Datblygiad Proffesiynol (a ddisgrifir uchod) a thrwy gydweithio'n agos gyda'n partneriaid.

31. Ein profiad ym maes ysgolion yw bod darpariaeth wedi cael ei gwneud ers amser maith ar gyfer DPP athrawon oedd yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r llywodraeth a blaenoriaethau ysgolion, ond nad oedd hyn bob amser yn cyfateb i anghenion personol athrawon am ddatblygiad proffesiynol. Yn 2001, buom yn treialu rhaglen a ariannwyd gan y Cynulliad a fwriadwyd i alluogi athrawon unigol i gael arian ar gyfer eu hanghenion proffesiynol unigol eu hunain, ac ers hynny rydym yn gweinyddu'r rhaglen. Ariannwyd ymhell dros 25,000 o gyfleoedd DPP yn y 7 mlynedd diwethaf. Er enghraifft, yn 2007-2008 manteisiodd mwy na 5500 o athrawon ar gyllideb werth £3 miliwn. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn wrth alluogi athrawon i gymryd rheolaeth a chyfrifoldeb am rywfaint o'u DPP ac wrth feithrin hunanhyder cynyddol athrawon yn eu harferion eu hunain. Rhan bwysig o'r broses hon oedd bod athrawon yn lledaenu eu dysgu proffesiynol gyda'u cydweithwyr.

32. Mae CyngACC yn ymwybodol y gall y pwyslais a roddir ar ddatblygiad staff amrywio o'r naill leoliad Addysg Bellach i'r llall, gan mai sefydliadau corfforaethol annibynnol ydynt. Byddem yn argymell buddion cyflwyno ffrwd ariannu wedi'i bwriadu i ddiwallu anghenion proffesiynol unigol athrawon. Ein profiad ni yw y gall dysgu proffesiynol athrawon unigol gael effaith gadarnhaol iawn 'o'r gwaelod i fyny' ar y sefydliad fel cymuned sy'n dysgu ac ar hyder y proffesiwn ehangach. Fodd bynnag, byddai angen i ffrwd ariannu o'r fath gael ei gweinyddu gan gorff annibynnol (megis corff proffesiynol) yn hytrach na cholegau, er mwyn sicrhau tegwch wrth ymdrin ag anghenion proffesiynol athrawon a nodir yn unigol.

Gosod a chynnal safonau ymddygiad a chymhwysedd

33. Gwaith 'clasurol' corff proffesiynol hunanreoleiddiol yw cynnal safonau uchel o ymddygiad proffesiynol a chymhwysedd ac ennyn hyder y cyhoedd. Yn aml ystyrir hyn yn beth negyddol pan fo rhai unigolion nad ydynt yn bodloni'r safonau proffesiynol yn cael eu cosbi neu eu tynnu oddi ar gofrestr ymarferwyr y proffesiwn. Mewn gwirionedd, mae'r gwaith ar safonau proffesiynol yn enghraifft gadarnhaol o safonau uchel proffesiwn nad yw'n barod i dderbyn nifer fach o unigolion a all bardduo ei enw da.

34. Mae i waith rheoleiddiol CyngACC y nodweddion canlynol. Byddai corff proffesiynol a fyddai'n chwarae rhan debyg i athrawon ym maes Addysg Bellach yn dod â'r un buddion.

Cofrestr

35. Mae'r Cyngor yn cadw cofnod o'r athrawon cymwys sydd wedi cofrestru gydag ef bob blwyddyn. Mae hefyd yn cadw cofnodion pob un sydd â chymwysterau addysgu ond sydd wedi dewis peidio â chofrestru. Rhaid i bob athro mewn ysgol y wladwriaeth yng Nghymru gofrestru gyda ChyngACC er mwyn addysgu.

36. Mae athrawon yn talu ffi cofrestru flynyddol (£45 ar hyn o bryd). Mae gan y Cyngor un categori cofrestru ('cofrestriad llawn') er ei fod wedi dadlau y dylai Llywodraeth y Cynulliad gyflwyno categori 'cofrestriad dros dro' i athrawon yn ystod y flwyddyn gyntaf y maent yn addysgu.

37. Mae cofrestru'n rhoi sicrwydd i rieni, cyflogwyr ac eraill bod gan athrawon yn ysgolion y wladwriaeth y cymhwyster gofynnol ac nad ydynt yn destun gwaharddiadau na gorchmynion disgyblu a fyddai'n eu hatal rhag addysgu. Hefyd, mae CyngACC wedi cyflwyno maen prawf 'addasrwydd i gael ei gofrestru' sydd bellach yn ei gwneud yn ofynnol i rywun sy'n cofrestru am y tro cyntaf neu'n ailgofrestru gael gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) cyn cofrestru.

38. Mewn perthynas â disgyblion oedran ysgol sy'n cael rhan o'u haddysg mewn lleoliadau Addysg Bellach neu sy'n cael eu haddysgu gan staff Addysg Bellach mewn ysgol, mae'n amlwg bod angen cysondeb. Yr enghraifft gyntaf ac amlycaf yw ym maes amddiffyn plant. Gan anghofio mater cymwysterau proffesiynol am y tro, ac yng nghyd-destun y sylw mawr a roddir ar hyn o bryd i faterion yn ymwneud ag amddiffyn plant, mae yna ddadl gref dros gorff proffesiynol i gadw Cofrestr o ddarlithwyr Addysg Bellach. Dull minimaidd fyddai hwn, a fyddai'n canolbwyntio ar addasrwydd/ymddygiad unrhyw unigolyn, waeth beth fo'i gymwysterau, i gael ei gyflogi fel athro mewn lleoliad Addysg Bellach. Y tu hwnt i hyn, o gofio amrywiaeth y cymwysterau addysgu ymysg y gweithlu Addysg Bellach, efallai y bydd angen ystyried gwahanol gategorïau cofrestru er mwyn adlewyrchu gwahanol gymwyseddau a chymwysterau addysgu.

Codau Ymddygiad ac Arfer

39. Mae CyngACC wedi cynhyrchu *'Datganiad Gwerthoedd ac Arfer Proffesiynol'* a'i ategu gyda chanllaw o'r enw *'Proffesiynoldeb ar Waith'*. Mae'r Datganiad yn rhoi set o egwyddorion y mae athrawon yn anelu atynt ac a ddylai fod yn ganllawiau i athrawon wrth iddynt ymdrin â dysgwyr, cydweithwyr, rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae hefyd yn disgrifio'r disgwyliadau ar athrawon o ran eu hymrwymiad i'w datblygiad proffesiynol. Mae'r ddogfen arweiniol *Proffesiynoldeb ar Waith* yn rhoi enghreifftiau o sefyllfaoedd y dylai athrawon eu hosgoi. Gyda'i gilydd, maent yn cynnwys egwyddorion pwysig i broffesiwn, egwyddorion y mae corff proffesiynol yn y sefyllfa orau i'w mynegi. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn adolygu'r dogfennau hyn gyda golwg ar gyflwyno Cod Ymddygiad ac Arfer sy'n nodi'r safonau sylfaenol ar gyfer rheoleiddio'r proffesiwn.

Ymdrin ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol ac anghymhwysedd proffesiynol difrifol

40. Cyfrifoldeb corff proffesiynol yw cynnal safonau ymddygiad ac arfer. Mae CyngACC yn ymchwilio a, lle bo'n briodol, gwrando achosion lle mae athro wedi cael ei ddiswyddo neu gallai fod wedi cael ei ddiswyddo gan gyflogwr am gamymddygiad neu anghymhwysedd proffesiynol neu lle mae athro wedi'i

gael yn euog o dramgwydd troseddol perthnasol. Mae hyn fel bod yna ffordd i sicrhau na fydd athrawon a gafwyd yn euog o gamymddygiad proffesiynol neu anghymhwysedd proffesiynol yn cael eu trosglwyddo i ysgol arall neu ddisgybl arall.

41. Gellid rhagweld y byddai'r un egwyddor yn cael ei gweithredu gan gorff proffesiynol i athrawon Addysg Bellach. Efallai y byddai safon gyffredin yn berthnasol i ymddygiad yr holl staff, ac, o bosibl, gwahanol safonau cymhwysedd proffesiynol gan ddibynnu ar y lefelau cymwysterau neu gategori cofrestru ar gyfer rhai athrawon penodol ym maes Addysg Bellach.

E. Yr angen i weithredu ar frys

42. Gan ei bod yn ofynnol i ysgolion a cholegau gydweithio mewn partneriaeth a chreu cynigion bras ar gyfer 'partneriaethau dysgu', mae angen datrys yr anghysondebau rhwng yr ymagwedd at broffesiynoli addysgu rhwng y sector ysgolion a'r sector Addysg Bellach, a hynny ar frys.

43. Mae'r gwaith o broffesiynoli athrawon ysgol yng Nghymru wedi hen sefydlu, ond nid yw athrawon mewn lleoliadau Addysg Bellach yn cael budd o ymagwedd gydlynol debyg at broffesiynoli. Mae athrawon yn y sector Addysg Bellach yn Lloegr wedi cael budd o'r gweithgareddau rheoleiddio a datblygu sy'n gysylltiedig â phroffesiynoli ers mis Medi 2007, yn sgil sefydlu'r Institute for Learning (IfL) fel y corff proffesiynol ar gyfer Addysg Bellach.

44. Mae'r Cyngor yn credu bod y dadleuon dros gyflwyno rheoleiddio proffesiynol ym maes Addysg Bellach yn gryf iawn. Cwestiwn sydd â chysylltiad agos â hyn, felly, yw "Pwy ddylai'r corff proffesiynol fod?"

45. Un dewis fyddai ymestyn cylch gwaith *Institute for Learning* Lloegr i Gymru. Ar y naill law, mae'n sefydliad sy'n bodoli eisoes ar gyfer addysgu Addysg Bellach, er bod ei hanes fel corff proffesiynol yn gymharol fyr. Fodd bynnag, ar ôl datganoli, byddai'n syndod pe bai Llywodraeth y Cynulliad yn dilyn llwybr mor syfrdanol wahanol i'r cyfeiriad mae wedi'i gymryd wrth sefydlu cyrff cyfochrog lle mae yna gyrff cyfatebol yn Lloegr e.e. sefydlwyd dau Gyngor Addysgu ar wahân i Gymru a Lloegr yn 2000. Byddai perygl y câi'r nifer gymharol fach o athrawon Addysg Bellach yng Nghymru eu hymyleiddio mewn sefydliad a fyddai'n canolbwyntio'n bennaf ar Loegr. Gallai hyn fethu â sicrhau'r atebion gorau i athrawon a dysgwyr yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae yna 9,600 o athrawon Addysg Bellach yng Nghymru o gymharu â 157,000 yn Lloegr.

46. Dewis arall fyddai i Lywodraeth y Cynulliad sefydlu corff proffesiynol i Gymru'n unig ar gyfer Addysg Bellach. Gallai ymdrin â'r materion proffesiynol ym maes Addysg Bellach heb orfod ystyried materion eraill megis y rhai sy'n wynebu ysgolion. Fodd bynnag, fel y dadleuwn yn y papur safbwynt hwn, nid arwahanrwydd yw'r hyn y mae ei angen, o gofio'r cyfeiriad a nodir yn y ddogfen *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* ac yn y cynllun *'Gweddnewid Addysg'.* Byddai anawsterau posibl wrth sefydlu corff proffesiynol ar wahân oherwydd maint cymharol fach y sector Addysg Bellach yng Nghymru a'r diffyg arbedion maint yn sgil hynny. I gorff o'r fath fod yn ymarferol, byddai angen iddo feithrin cysylltiadau agos iawn gyda chyrff eraill.

47. Trydydd dewis yw i gylch gwaith Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gael ei ymestyn i gynnwys athrawon Addysg Bellach. Ar y naill law, mae'r Cyngor wedi'i sefydlu bellach ac mae ganddo brofiad o'r problemau proffesiynol sy'n wynebu proffesiwn addysgu. Sefydliad i Gymru ydyw, wedi'i gysylltu'n agos

â'r blaenoriaethau a'r problemau a wynebir yn ein gwlad. Ar y llaw arall, mae'r cyfansoddiad presennol, cyfansoddiad y Cyngor llywodraethu a'i gylch gwaith yn ymwneud ag athrawon ysgol, a heb newid sylweddol ni fyddai'n 'addas i'r diben' fel sefydliad i gynghori a rheoleiddio'r gweithlu Addysg Bellach. Ymddengys mai'r trydydd dewis hwn y mae Gweinidogion yn ei ystyried, fel y nodir ym mhenderfyniad y Gweinidog ym mis Mawrth 2007 ''*work should begin to explore the legislative and delivery requirements needed to extend the current role of the General Teaching Council for Wales (GTCW) to act as the body responsible for the license to practise for teachers, tutors and trainers in the lifelong learning sector in Wales*'.

48. Er nad yw'r Cyngor <u>ar hyn o bryd</u> yn cefnogi rheoleiddio'r sector dysgu gydol oes ehangach, ymddengys mai ychydig iawn o gynnydd pendant sydd wedi cael ei wneud ar benderfyniad y Gweinidog, ac ymddengys nad oes cynllun clir ar gyfer gweithredu os bydd yr ymchwil yn cefnogi'r ddadl dros ymestyn cylch gwaith CyngACC. Mae'r ymagwedd 'amser-a-ddengys' sy'n cael ei mabwysiadu, fe ymddengys, at ddatblygiadau yn y sector Addysg Bellach yn Lloegr yn gwneud anghymwynas ag athrawon Addysg Bellach yng Nghymru. Mae gan Gymru ymagwedd wahanol at *Lwybrau Dysgu 14-19* ac ymrwymiad i weddnewid addysg trwy gael ysgolion a cholegau Addysg Bellach i weithio mewn partneriaeth. Dylai hefyd fabwysiadu ymagwedd wahanol at reoleiddio proffesiynol yn y sector Addysg Bellach. Rhagdybir, yng ngoleuni penderfyniad y Gweinidog, y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud gwerthusiad cychwynnol o leiaf i gefnogi'r dewis hwn. Byddai'r Cyngor yn falch o weld y gwerthusiad hwn ac o gymryd rhan ymhellach mewn trafodaethau polisi gyda'r Gweinidog a swyddogion y Cynulliad ar y mater.

49. Bydd unrhyw benderfyniad ynglŷn â rheoleiddio'r gweithlu Addysg Bellach yng Nghymru yn golygu y bydd angen deddfwriaeth a byddai amserau dirwyn hir yn mynd heibio cyn gweithredu yn y pen draw. Yn yr un modd, mae'n anochel y bydd yr angen i ymgynghori'n helaeth a meithrin consensws ynghylch y dull rheoleiddio a ffefrir yn cymryd amser maith, gan y bydd angen cynnwys llawer o sefydliadau, gan gynnwys cyflogwyr ac undebau llafur.

50. Yng ngoleuni'r amserau dirwyn maith hyn, mae angen i benderfyniadau polisi gael eu gwneud cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Os yw Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried mai CyngACC yw'r corff proffesiynol ar gyfer Addysg Bellach, yna bydd angen Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno Mesur i ddiffinio swyddogaeth a chyfansoddiad newydd CyngACC.

F. Casgliad

51. Mae'r Cyngor yn credu y byddai sefydlu corff proffesiynol ar gyfer Addysg Bellach gydag annibyniaeth a digon o arian i gefnogi ei raglen waith yn cynorthwyo datblygiad proffesiynol y gweithlu Addysg Bellach yn fawr. Byddai hefyd yn creu buddion eraill wrth godi statws athrawon Addysg Bellach; rhoi mwy o sicrwydd i ddysgwyr a chyflogwyr ynglŷn ag ansawdd; a dod â mwy o gysondeb a chydlyniaeth i'r rhyngwyneb rhwng ysgol a choleg.

52. Mae'r Cyngor yn galw am ymgynghoriad llawn gydag athrawon Addysg Bellach ar yr egwyddor y tu ôl i'r corff proffesiynol a swyddogaethau allweddol y corff hwnnw. Byddai'n hanfodol i *fforwm* a'r undebau sy'n cynrychioli athrawon Addysg Bellach fod yn rhan ganolog o unrhyw strategaeth cyfathrebu / ymgynghori.